

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Asesu Hygyrchedd



Canllawiau Cynllunio Atodol
i'r Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer
Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Mabwysiadwyd ar y 26ain o Fehefin 2013



**Parc Cenedlaethol
Arfordir Penfro**
**Pembrokeshire Coast
National Park**

Cynnwys

1.0	CYFLWYNIAD	2
2.0	Y CEFNDIR A'R CYD-DESTUN	3
3.0	ASESU HYGyrCHEDD	4
4.0	EITHRIADAU	5
5.0	ATODIAD A: CATEGOREIDDIO AMLDER GWASANAETHAU BYSIAU	6
6.0	ATODIAD B: RHESTR WIRIO	7
7.0	ATODIAD C: ENWAU CYSWLLT DEFNYDDIOL	8

1.0 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn egluro'r modd y bydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) yn ystyried hygyrchedd rhai cynigion mewn lleoliadau yng nghefn gwlad. Mae Polisi 7 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r mathau o ddatblygiadau a ganiateir o bosibl mewn lleoliadau yng nghefn gwlad. Ymhlith y datblygiadau hyn mae addasu adeiladau priodol ar gyfer amrywiol ddefnydd, a llenwi neu dalgrynnu grwpiau ynysig o anheddau, a hynny mewn modd sensitif. Wrth asesu'r cynigion penodol hyn mae'r polisi yn nodi y bydd hygyrchedd i'r Canolfannau a glustnodir yn y Cynllun yn ystyriaeth o bwys. Y nod yw cynorthwyo darpar ymgeiswyr i wneud cais cynllunio, a nodi'r wybodaeth y byddwn yn ei hystyried wrth asesu'r ceisiadau.

1.2 Mae'n bwysig ein bod yn ystyried pob cais mewn modd clir a chyson. Bydd y wybodaeth a gynhwysir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn gymorth i ymgeiswyr weld sut mae'r Awdurdod yn asesu hygyrchedd, a sut, mewn eithriadau, y gall fod rhai mathau o ddatblygiadau fod yn dderbyniol mewn lleoliadau anhygyrch.

1.3 Dim ond y polisiâu yn y cynllun datblygu sydd â statws arbennig wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio (h.y. at ddibenion gwneud unrhyw benderfyniad o dan y Deddfau Cynllunio, rhaid gwneud y penderfyniad yn unol â'r Cynllun oni bai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall), a gellir cymryd y Canllawiau Cynllunio Atodol i ystyriaeth fel ystyriaeth gynllunio berthnasol.¹ Wrth wneud penderfyniadau ar faterion a ddaw ger bron, bydd Llywodraeth Cymru a'r Arolygiaeth Gynllunio yn rhoi cryn bwys ar ganllawiau cynllunio atodol a gymeradwywyd sydd wedi deillio o'r dulliau a nodwyd yn y polisi cenedlaethol ar baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, ac sydd wedi'u paratoi yn gyson â'r dulliau hynny.² Mewn geiriau syml, mae gofynion y ddeddfwriaeth yn golygu bod angen cymryd y canlynol i ystyriaeth wrth ystyried cynnig:

- A yw'r cynnig yn bodloni gofynion polisiâu'r Cynllun Datblygu; a
- Pwyso a mesur yr holl ystyriaethau cynllunio eraill i weld a ydynt yn troi'r fantol yn erbyn casgliadau'r Cynllun Datblygu.³

1.4 Mae adroddiad ar yr ymgynghori sy'n rhoi manylion am y modd yr ymgynghorwyd ar y Canllawiau, ar gael ar wefan yr Awdurdod.⁴

¹ Paragraff 5.2, tudalen 33, Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, Polisi ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

² Paragraff 5.3, tudalen 33, Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru, Polisi ar Baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005

³ Tudalen 27 <http://www.wlga.gov.uk/publications-and-consultation-responses-imp/planning-handbook-a-guide-for-local-authority-members/>

⁴ [Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Canllawiau Cynllunio Atodol](#)

2.0 Y Cefndir a'r Cyd-destun

- 2.1 Mae Polisi 7 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn nodi'r mathau o ddatblygiadau a ganiateir o bosibl mewn lleoliadau yng nghefn gwlad. Ymhlith y datblygiadau hyn mae addasu adeiladau priodol ar gyfer amrywiol ddefnydd, a llenwi neu dalgrynnu grwpiau ynysig o anheddau, a hynny mewn modd sensitif. Wrth asesu'r cynigion penodol hyn mae'r polisi yn nodi y bydd hygyrchedd i'r Canolfannau a glustnodir yn y Cynllun yn ystyriaeth o bwys. Diben hyn yw creu cynifer â phosibl o gyfleoedd ar gyfer teithio cynaliadwy drwy gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i gyrraedd amrediad o gyfleusterau a gwasanaethau fyddai fel arfer yn fuddiol i'r rhai fyddai'n defnyddio'r datblygiad arfaethedig yn y pen draw.
- 2.2 Mae lleoli datblygiadau sy'n lleihau'r galw am deithio gymaint â phosibl, yn enwedig teithio mewn car preifat, yn un o Amcanion Polisi Allweddol Llywodraeth Cymru (Polisi Cynllunio Cymru, para 4.4.2). Derbynnir nad oes cymaint o gyfleoedd ag mewn ardaloedd trefol i ddefnyddio llai ar geir preifat, ond polisi Llywodraeth Cymru yw cyfeirio'r mwyafrif o ddatblygiadau newydd mewn aneddiadau sy'n gymharol hygyrch drwy ddulliau teithio heblaw ceir o'u cymharu â'r ardal wledig yn gyffredinol. (Polisi Cynllunio Cymru, para 4.6.7).
- 2.3 Fis Gorffennaf 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn diwygiedig o Nodyn Cyngor Technegol 6.: Cymunedau Cynaliadwy. Mae'r Nodyn hwn yn cydnabod rôl hanfodol bwysig y system gynllunio o ran cynnal cymunedau gwledig cynaliadwy, a'r cwestiwn allweddol i'r awdurdod cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio yw a yw'r datblygiad arfaethedig yn gwella neu'n lleihau cynaliadwyedd y gymuned. (Nodyn Cyngor Technegol 6, paragraff 2.2.). Am y rheswm hwn, derbynnir y gall y math o ddatblygiad neu fuddiannau cynaliadwy y gallai ddod yn sgîl y datblygiad, mewn rhai achosion, fod yn drech na'r angen am i'r datblygiad fod mewn lleoliad hygyrch.
- 2.4 Yr achosion hynny, fel arfer, fyddai datblygiad arfaethedig sydd â'r nod o ddiwallu anghenion lleol, yn unol â Nodyn Cyngor Technegol 6.

3.0 Asesu Hygyrchedd

- 3.1 Wrth asesu hygyrchedd mae'r Awdurdod yn defnyddio'r cyngor a gyhoeddwyd gan Ganllawiau'r Sefydliad Priffyrdd a Chludiant ar gyfer Darparu Siwrneiau ar Droed. Mae'r canllawiau hyn yn awgrymu mai'r pellter targed rhwng y safle ac amrediad o gyfleusterau yw rhwng 300m a 600m a'r pellter derbyniol ar gyfer yr un cyfleusterau hynny yw rhwng 600m a 1000m.
- 3.2 O gofio mai ardal wledig yw'r Parc Cenedlaethol, y pellter mwyaf a gynghorir uchod, sef 1km, yw'r safon a ddefnyddir gan yr Awdurdod wrth asesu pa mor hygyrch yw safle. Mae angen i'r asesiad sicrhau bod y modd o gyrraedd cyfleusterau o'r safle yn cynnig dewis arall realistig i deithio mewn car. Golyga hyn bod rhaid i lwybrau cerdded a beicio fod ar agor, yn briodol ac yn ddiogel i gerddwyr neu i feicwyr.
- 3.3 Caiff y pellter ei fesur yn ôl yr union bellter ar hyd llwybrau priodol o'r safle i bwynt rhesymol yn y Ganolfan agosaf, lle mae amrediad o gyfleusterau a gwasanaethau ar gael, a'r pellter wedi'i fesur ar hyd y llwybr agosaf, gan gynnwys ffyrdd a throedffyrdd.
- 3.4 Hefyd ystyrir bod safle yn hygyrch os oes gorsaf drenau neu lwybr bws o fewn cilomedr o gerdded o'r safle. Mae pob gwasanaeth bws yn Sir Benfro yn gweithredu ar sail stopio bws drwy godi llaw sy'n golygu y gall bysiau stopio i ollwng teithwyr neu i godi teithwyr mewn llefydd heblaw am arosfannau bysiau penodedig. Penderfyniad y gyrrwr yw stopio neu beidio cyn belled â'i bod yn ddiogel i wneud hynny. Wrth asesu pa mor ymarferol yw'r bws o ran cynnig dewis arall realistig i deithio mewn car, rhaid i'r llwybr rhwng y safle a'r llwybr bws fod ar agor, yn briodol ac yn ddiogel i gerddwyr ei ddefnyddio.
- 3.5 Ar gyfer datblygiadau fyddai'n dibynnu ar wasanaeth bws i gael mynediad i Ganolfannau, mae amlder ac amserau'r gwasanaethau bws sydd ar gael hefyd yn ystyriaeth allweddol. Mae Awdurdod Priffyrdd Cyngor Sir Penfro wedi diffinio amlder llwybrau bysiau mewn chwe chategori (gweler Atodiad 1). Y lefel leiaf o wasanaeth a ystyrir yn angenrheidiol i allu cael modd rhesymol o symudedd heb gludiant preifat yw lle bo gwasanaethau ar adegau sy'n addas i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith neu i'r ysgol, siopa bore a phrynhawn - sef o leiaf 5 siwrnai ddwyffordd y dydd.
- 3.6 Defnyddir y lefel "strategol" hon o wasanaeth felly fel y lefel isaf sy'n ofynnol i gynnig dewis arall realistig i deithio mewn car ar gyfer llety preswyl parhaol.
- 3.7 Wrth ystyried ceisiadau am lety gwyliau, byddai'r Awdurdod yn derbyn gwasanaeth llai aml gan fod anghenion teithio pobl ar wyliau yn wahanol i ofynion teithio trigolion parhaol. Byddai gwasanaeth bws o fewn 1km sy'n cynnig o leiaf 3 siwrnai ddwyffordd y dydd, fel arfer yn cynnig dewis arall derbyniol i deithio mewn car.
- 3.8 Ar gyfer ceisiadau am addasu adeiladau, mewnlenni neu dalgrynnu ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau, byddai angen i'r Awdurdod asesu gofynion tebygol y defnyddwyr o ran teithio. Byddai hyn yn penderfynu a yw hygyrchedd drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus yn gallu cynnig dewis arall realistig i deithio mewn car, a hefyd a oes unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill fyddai'n drech na'r angen am i'r datblygiad arfaethedig gael ei leoli mewn lleoliad anhygyrch.

4.0 Eithriadau

- 4.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol 6 (Gorffennaf 2010) yn nodi lle mai bwriad datblygiad arfaethedig yw diwallu anghenion lleol, dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y gall safle fod yn dderbyniol er nad yw o bosibl yn hygyrch heblaw drwy ddefnyddio car preifat.
- 4.2 Ystyrir bod y mathau canlynol o ddatblygiad yn diwallu angen lleol:
- Tai fforddiadwy** – mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 3, Gorffennaf 2010, paragraff 7.6.9 yn cyfeirio at dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.⁵
 - Arallgyfeirio ar Ffermydd** - mae Polisi Cynllunio Cymru, Argraffiad 4, Chwefror 2011, paragraff 7.3.3 yn cyfeirio at yr angen am i awdurdodau cynllunio lleol fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol at ddatblygiadau sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio ar ffermydd, mewn ardaloedd gwledig, p'un a yw'r ffermydd yn cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus neu beidio.
 - Anheddau Menter Wledig**⁶ – mae Nodyn Cyngor Technegol 6 (Cymunedau Cynaliadwy) paragraff 4.3.1 yn clustnodi y gellir cyfiawnhau datblygiad preswyl newydd ynysig yng nghefn gwlad pan fod angen llety i alluogi gweithwyr hanfodol menter wledig fyw yn eu man gwaith neu gerllaw.
- 4.3 Fe all y datblygiadau canlynol hefyd fod yn dderbyniol, mewn egwyddor, mewn lleoliadau anhygyrch:
- Atyniadau i ymwelwyr, gweithgareddau adloniant a hamdden - lle gellir dangos bod yr angen am i'r datblygiad fod yn y lleoliad penodol hwnnw yn drech na'r gofyniad bod y safle yn hygyrch drwy ddulliau teithio heblaw car preifat (gweler polisi 35d).
 - Addasu adeiladau – lle mae priodweddau hanesyddol neu bensaernïol yr adeilad y gellir ei gadw gan y datblygiad, yn drech na'r gofyniad bod y safle yn hygyrch drwy ddulliau teithio heblaw car preifat. Lle bo'r cynnig am ddefnydd preswyl, byddai'r Awdurdod yn dilyn y dulliau hierarchaidd canlynol o weithredu wrth ystyried ceisiadau:
 - Yr ystyriaeth gyntaf ddylai fod ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn unol â TAN6;
 - Petai'n cael ei brofi nad yw tai fforddiadwy yn hyfyw, yna byddai'r Awdurdod yn ystyried cynigion o osod llety gwyliau, lle byddai'r gofynion teithio yn llai o bwysau na'r rhai ar gyfer llety preswyl parhaol;
 - Llety preswyl parhaol.

Mae'n bosibl y bydd gofyn cael dadansoddiad o effeithiau traffig a mesurau lleihau'r effeithiau yn yr achosion hyn. Gall hyn gynnwys darparu Cynllun Teithio i ddangos sut ellir lleihau'r angen i deithio mewn car. Er enghraifft drwy ddefnyddio cludiant ysgol, siopa ar y we, rhannu ceir ac ati.

⁵ Mae diffiniad o berson lleol wedi'i gynnwys yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy, a fabwysiadwyd gan APCAP fis Mawrth 2011).
<http://www.pembrokeshirecoast.org.uk/Files/Files/dev%20plans/AffordableHousingSpgAdoptedWorkingDraft.pdf>

⁶ Mae mentrau gwledig cymwys wedi'u diffinio ym mharagraff 4.3.2 o Nodyn Cyngor Technegol 6 fel busnesau sy'n gysylltiedig â thir, gan gynnwys busnesau amaethyddol, coedwigol a gweithgareddau eraill y mae eu mewnbynnau sylfaenol yn deillio o'r safle, megis prosesu cynhyrchion amaethyddol, coedwigol a mwynol, ynghyd â gweithgareddau rheoli tir a gwasanaethau cymorth (gan gynnwys contractio amaethyddol), twristiaeth a mentrau hamdden.

5.0 Atodiad A: Categoriaddio Amllder Gwasanaethau Bysiau

1. **Aml** – gwasanaethau o leiaf bob awr, chwe diwrnod yr wythnos, gan gynnwys siwrneiau sy'n addas i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, i'r ysgol, siopa bore a phrynhawn.
2. **Strategol** – gwasanaethau ar adegau sy'n addas ar gyfer teithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith, i'r ysgol, siopa bore a phrynhawn, fel arfer o leiaf 5 siwrnai y diwrnod – sef y lefel isaf yr ystyrir sydd ei angen i allu cael modd rhesymol o symudedd heb gludiant preifat.
3. **Dyddiol** – gwasanaethau ar 5 diwrnod yr wythnos man lleiaf, ond heb un neu fwy o'r nodweddion sydd eu hangen i fod yn strategol.
4. **Anaml** – gwasanaethau ar un i bedwar diwrnod yr wythnos.
5. **Anaml lawn** – gwasanaethau ar ddiwrnod ysgol yn unig, yn ystod yr haf yn unig, neu yn llai nag wythnosol; a
6. **Dim gwasanaeth o gwbl.**

6.0 Atodiad B: Rhestr Wirio

Os	Yna
Yw'r safle o fewn 1km i Ganolfan a enwir ⁷ ac a nodir yn y Cynllun Datblygu Lleol. (DS 1km ar hyd ffyrdd a/neu droedffyrdd)	Ystyrir bod y safle yn hygyrch.
Os yw'r safle yn fwy na 1km o Ganolfan ond o fewn 1km i wasanaeth bws.	1. Gwiriwch gyrchfannau'r gwasanaeth; 2. Gwiriwch amllder y gwasanaeth. 3. Os nad oes arosfan bws, gwiriwch gyflwr cyffredinol y ffordd i weld a fyddai'n ddiogel ar y cyfan i esgyn i fws/glanio oddi ar fws.
Os yw'r safle o fewn 1km i lwybr bws gyda 5 neu fwy o siwrneiau bws dwyffordd y dydd.	Ystyrir bod y safle yn hygyrch.
Os yw'r safle o fewn 1km i lwybr bws gyda llai na 5 o siwrneiau bws dwyffordd y dydd.	Gall y safle fod yn hygyrch ar gyfer llety gwyliau. Hefyd yn briodol ar gyfer tai fforddiadwy.
Os yw'r safle yn fwy nag 1km o lwybr bws.	Nid yw'r safle yn hygyrch ond fe all fod yn dderbyniol mewn egwyddor ar gyfer tai fforddiadwy.
Os yw'r safle yn fwy nag 1km o lwybr bws ond bod rhinweddau pensaernïol neu hanesyddol i'r adeiladau.	Pwysu rhinweddau'r adeiladau yn erbyn anhygyrchedd ac ystyried hierarchaeth ar gyfer cynigion preswyl: • Tai fforddiadwy • Llety gwyliau • Defnydd preswyl parhaol.
Os yw'r cais yn gynnig am arallgyfeirio ar fferm.	Nid oes raid i'r safle fod yn hygyrch.
Os yw'r cais yn gynnig am dai fforddiadwy.	Nid oes raid i'r safle fod yn hygyrch.
Os yw'r cais am annedd menter wledig	Nid oes raid i'r safle fod yn hygyrch.
Os yw'r cais am atyniad hamdden/ adloniant/ atyniad i ymwelwyr.	Ystyrier tystiolaeth o'r angen am fod yn y lleoliad penodol hwnnw a phwyso'r rhinweddau yn erbyn hygyrchedd. Ystyrier mesurau lliniaru.

⁷ Dinbych-y-pysgod, Trefdraeth, Saundersfoot, Tyddewi, Amroth, Angle, Bosherton, Aberllydan, Dale, Dinas, Felindre Farchog, Herbrandston, Jameston, Lawrenni, Aber Bach, Maenorbyr, Gorsaf Maenorbyr, Marloes, Niwgwyl, Pont-faen, Solfach, Llanismel, Trefin, Coshaston, Hook, Houghton, Llangwm, Milton, New Hedges, Pleasant Valley, Y Garn, Square and Compass, Summerhill.

7.0 Atodiad C: Enwau Cyswllt Defnyddiol

Am ragor o wybodaeth cysyllter os gwelwch yn dda â

Sarah Middleton (Swyddog Cynllunio, Yr Adran Gyfarwyddo)
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY

Ffôn 0845 345 7275

E-bost: devplans@pembrokeshirecoast.org.uk